**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ODDI WRTH Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD UNDYDD I FARW-ENEDIGAETHAU YNG NGHYMRU.**

**EBRILL 2013**

---

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno gyda chasgliad y Pwyllgor. Mae hwn yn fater cymhleth ac amlochrog ac nid oes un cam unigol a fyddai, o'i gymryd, yn cael gwared â'r risg o farw-enedigaethau yng Nghymru.

Mae sefydlu'r Grŵp Marw-enedigaethau Cenedlaethol (NSG) ym mis Mawrth 2012 wedi rhoi'r hwb i Fyrddau Iechyd ddod at ei gilydd i drafod a chytuno ar y camau a gyflwynir yn awr i ostwng cyfraddau marw-enedigaethau yng Nghymru. Caiff gwaith yr NSG ei ariannu yn llawn gan 1000 o Fywydau a Mwy ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/14. Gweler y Cylch Gorchwyl ac aelodau'r grŵp yn Atodiad 1.

Yn ychwanegol at gefnogi'r gwaith o weithredu argymhellion 1,2,5 ac 8 mae'r NSG yn arwain gwaith i weithredu'r ymyriadau canlynol a gytunwyd yn genedlaethol:-

- Safoni'r gwaith o reoli llai o symudiadau gan y ffetws.
- Gweithredu siartiau twf wedi'u haddasu.
- Cynyddu caniatâd post-mortem.
- Adolygiad amenedigol lleol.
- Adolygiad amenedigol Cymru gyfan.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

**Argymhelliad 1**
**Mae ymwybyddiaeth gyhoeddus o farw- enedigaethau a'r ffactorau risg yn hanfodol er mwyn gostwng cyfraddau marw-enedigaethau Cymru. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi arweiniad gweithgar - drwy'r Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau a sefydlwyd yn ddiweddar - i ddatblygu negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol fel mater o flaenoriaeth. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth darpar rieni a'r rhai sy'n bwriadu cychwyn teulu o'r risg o farw-enedigaeth a bydd yn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu hiechyd a'u beichiogrwydd.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd hyn yn ffurfio rhan o waith y Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-

enedigaethau.

Gan weithio gyda SANDS, bydd y Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau yn datblygu negeseuon iechyd cyhoeddus a fydd yn cael eu rhoi i ferched a'u partneriaid drwy ddeunydd ysgrifenedig a thrafodaeth mewn ymgynghoriadau cyn-geni. Y nod yw cyflwyno hyn ar draws Cymru o hydref 2013.

**Argymhelliad 2**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chyrff proffesiynol a byrddau iechyd yng Nghymru i sicrhau bod pob darpar riant yn cael gwybodaeth ddigonol gan glinigwyr a bydwragedd am farw-enedigaethau a'r risg gysylltiol. Dylai trafod marw-enedigaeth ffurfio rhan arferol o'r sgwrs a gynhelir rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol a darpar rieni yn ystod beichiogrwydd.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd hyn yn ffurfio rhan o waith y Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau. Bydd y negeseuon iechyd cyhoeddus a fydd yn cael eu rhoi i ferched a'u partneriaid drwy ddeunydd ysgrifenedig a'u trafod mewn ymgynghoriadau cyn-geni yn cynnwys safoni'r wybodaeth / cyngor ynghylch rheoli llai o symudiadau gan y ffetws. Y nod yw cyflwyno hyn ar draws Cymru o hydref 2013.

**Argymhelliad 3**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chyrff proffesiynol a chyrff rheoleiddio, ynghyd â sefydliadau academaidd perthnasol, i sicrhau bod marw-enedigaethau, y ffactorau risg a'r ymyriadau cysylltiol, a hyfforddiant profedigaeth, yn cael lle amlycach yng nghwricwla bydwreigiaeth ac obstetreg Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r byrddau iechyd i fonitro ac i adolygu'n rheolaidd anghenion gweithwyr iechyd proffesiynol am hyfforddiant yn ymwneud â marw-enedigaethau a'u cymhwysedd yn y maes.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

<u>Bydwragedd</u>
Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob bydwraig dderbyn goruchwyliaeth fel sy'n ofynnol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ac arfarniad blynyddol. Bydd Byrddau Iechyd a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn sicrhau bod hyn yn ei le a bod monitro rheolaidd yn digwydd.

Mae safonau'r cwricwlwm ar gyfer addysg Bydwreigiaeth cyn-gofrestru yn cael eu gosod gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae Safon 17 yn manylu ar y

cymwyseddau sydd eu hangen i gofrestru gyda'r Cyngor ac mae'n cynnwys darparu gofal i fenywod sydd wedi dioddef colli beichiogrwydd, marw-enedigaeth neu farwolaeth newyddenedigol. Mae'r clystyrau sgiliau hanfodol a osodwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cynnwys trafod gwybodaeth leol / genedlaethol gyda merched i gynorthwyo gyda gwneud dewisiadau, yn cynnwys asiantaethau a gwefannau gwirfoddol lleol a chenedlaethol.

Bydd amlygrwydd hyn yn ein rhaglenni cyfredol yn cael ei drafod gyda CYNGOR - y grŵp ymgynghorol Cymru gyfan ar addysg ac ymchwil ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a'r Proffesiynau Iechyd.

<u>Obstetryddion</u>
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad i ddatblygu arbenigedd / profiad o gynghori mewn perthynas â'r risg o farw-enedigaeth. Ond mae Pwyllgor Cwricwlwm RCOG y DU yn ymdrin â hyn. Bydd cwnsela yn cael ei gynnwys, yn ogystal â fideo ar sut i dorri'r newyddion drwg i gleifion a phartneriaid. Mae trafodaethau yn parhau ynghylch y posibilrwydd o fideo ar bost-mortem yn dilyn marw-enedigaeth. Bydd hyn yn y cwricwlwm erbyn Awst 2014.

Gofynnwyd i'r Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol (NSAG) ar gyfer Iechyd Merched ystyried hyn yn eu cyfarfod nesaf, ym mis Mehefin 2013, a byddant hefyd yn trafod hyn gyda'r Ddeoniaeth Feddygol yng Nghymru.

Ymdrinnir â goblygiadau ariannol diwygio'r cwricwla o fewn y cyllidebau Addysg Uwch a RCOG presennol.

Mae monitro ac adolygu anghenion hyfforddi ar gyfer staff yn fater i fyrddau iechyd lleol fel rhan o ofyniad statudol i sicrhau bod ganddynt y staff cywir gyda'r sgiliau cywir i ddarparu eu gwasanaethau a dylid ei gynnwys yn eu dadansoddiad blynyddol o anghenion hyfforddiant.

Mae fframwaith datblygu gweithlu a sefydliadol Llywodraeth Cymru yn datgan yn glir ein bod yn disgwyl i'r holl staff ymrwymo i arfarniad blynyddol a chynllun datblygu personol.

**Argymhelliad 4**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i ganfod a fyddai dichon sefydlu rhwydwaith mamolaeth i yrru'r gwaith o safoni gofal ar draws Cymru. Credwn y dylid, fan lleiaf, sefydlu rhithrwydwaith clinigol o fewn y 12 mis nesaf**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Fel rhan o'r gwaith o weithredu'r Weledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth mae Llywodraeth Cymru yn y broses o gwmpasu ymarferoldeb

sefydlu rhwydwaith mamolaeth. Bydd y cwmpasu yn cael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2013 a bydd yn cynnwys goblygiadau ariannol sefydlu a chynnal rhwydwaith o'r fath. Yn seiliedig ar gasgliadau'r ymarfer cwmpasu rhoddir ystyriaeth wedyn i a ddylid sefydlu rhwydwaith mamolaeth. Bydd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o sefydlu rhithrwydwaith.

**Argymhelliad 5**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad o'r nifer o fenywod yng Nghymru sy'n esgor fwy na thri diwrnod ar ddeg ar ôl eu dyddiad geni penodedig. Dylid ystyried canlyniad pob beichiogrwydd yn y garfan hon a'r ffactorau a arweiniodd at y penderfyniad i beidio ag ysgogi esgor o fewn y cyfnod amser a roddir yn y canllawiau. Dylid ystyried ymhellach a ddylid ysgogi esgor yn nes at y dyddiad geni penodedig mewn menywod sydd â ffactorau risg uchel eraill, megis mamau hen, mamau sy'n ysmygu neu'r rhai â phroblem pwysau.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd hyn yn ffurfio rhan o waith y Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau a bydd yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2014.

**Argymhelliad 6**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio ac yn cyflwyno adroddiad ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor fod gorfod ceisio ymgynghoriadau arbenigol (meddygaeth y ffetws) y tu allan i Gymru yn ddrutach erbyn hyn na darparu'r gwasanaeth yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd edrych yn fanwl ar y cynnig y dylai gwasanaethau arbenigol meddygaeth y ffetws gael eu comisiynu ar lefel drydyddol yn hytrach nag eilaidd.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau drwy ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth benderfynu ar y lle gorau posibl ar gyfer triniaeth.

Bydd David Sissling yn ysgrifennu at Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd i dynnu eu sylw at yr argymhelliad hwn. Y disgwyl yw y byddant yn pwyso a mesur yr opsiynau ar gyfer darparu meddyginiaeth arbenigol ar gyfer y ffetws i boblogaeth Cymru. Disgwylir adroddiad cynnydd gan bob Bwrdd Iechyd ar ddiwedd chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol 2013/14.

**Argymhelliad 7**
**Rydym yn argymell y dylid datblygu safon ofynnol genedlaethol ar adolygu marwolaethau amenedigol a'i chyflwyno ar draws Cymru. Argymhellwn**

**hefyd y dylid mabwysiadu ffordd fwy eang a dychmygus o ddefnyddio'r arian a neilltuir gan Lywodraeth Cymru i ymchwil ac astudiaethau meddygol, a bod Llywodraeth Cymru'n ceisio costiadau manwl am archwiliad amenedigol cenedlaethol i Gymru gan Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan.  Credwn y gallai'r buddsoddiad cychwynnol yn yr archwiliad hwn ildio buddion sylweddol o ran canfod ac atal marw-enedigaethau yn y dyfodol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae gwaith o ddatblygu safon ofynnol genedlaethol ar adolygu marwolaethau amenedigol yn cael ei gynnal fel rhan o waith y Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau.

Mae trafodaethau ar ddatblygu archwiliad amenedigol cenedlaethol i Gymru o Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan yn cael eu datblygu trwy waith ar y cyd gyda'r Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) a MBRRACE-UK (Mamau a Babanod - Lleihau Risg trwy Archwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol ar draws y DU).  Bydd goblygiadau ariannol yr holl ddewisiadau yn ffurfio rhan o'r drafodaeth ynghylch y ffordd ymlaen.

**Argymhelliad 8**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cynllun manwl ar sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r broblem a achosir gan y gyfradd post-mortem isel i fabanod marw- anedig.  Dylai'r cynllun gynnwys:**

- **manylion am sut y caiff hyfforddiant ei ddarparu i weithwyr iechyd proffesiynol fel eu bod yn fwy abl i godi'r mater hynod anodd hwn gyda rhieni sy'n galaru;**
- **manylion am ba wybodaeth, a honno'n wybodaeth ragorach, fydd yn cael ei datblygu ar gyfer rhieni fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau'n well ar sail gwybodaeth;**
- **asesiad o'r gweithredu sy'n ofynnol i wella'r ddarpariaeth patholeg amenedigol.**
- **manylion am sut y caiff hyfforddiant ei ddarparu i weithwyr iechyd proffesiynol fel eu bod yn fwy abl i godi'r mater hynod anodd hwn gyda rhieni sy'n galaru;**
- **manylion am ba wybodaeth, a honno'n wybodaeth ragorach, fydd yn cael ei datblygu ar gyfer rhieni fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau'n well ar sail gwybodaeth;**
- **asesiad o'r gweithredu sy'n ofynnol i wella'r ddarpariaeth patholeg amenedigol.**

**Ymateb: Derbyn**

Drwy’r gwaith a gynhelir gan SANDS ac adborth gan rieni yng Nghymru, mae’r Grŵp Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau yn gwella gwasanaethau.

Mae trefnu mynediad cyflym at wasanaethau yn enghraifft wych o ran lle mae rhannu arfer da yn arwain at y posibilrwydd o welliannau uniongyrchol.

Cytunodd y grŵp bod angen safoni’r broses ar gyfer trosglwyddo babanod i Gaerdydd ar gyfer post-mortem a gwella’r broses o archwilio’r brych yn batholegol (er mwyn deall patholeg brych mewn modd mwy dibynadwy) drwy ddefnyddio’r patholegwyr amenedigol arbenigol yng Nghaerdydd. Mae’r gallu i drefnu post-mortem ar ddyddiad penodol a throsglwyddo babi i Gaerdydd ac yn ôl ar yr un diwrnod yn helpu’r rhieni i wybod ble mae eu babi yr holl amser.

**Argymhelliad 9**
**Yn niffyg yr elusennau mawr a'r buddiannau diwydiant sy'n ariannu trwch yr ymchwil i gyflyrau iechyd eraill, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy Ganolfan Ymchwil Glinigol y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, yn comisiynu darn cynhwysfawr o waith ar achosion gwaelodol marw- enedigaethau. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud mewn cydweithrediad â gweithwyr iechyd proffesiynol ac academyddion yn y maes, a dylai adlewyrchu'r wybodaeth ryngwladol am farw-enedigaethau. Dylai'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd y Cynulliad hwn.**

**Ymateb: Derbyn**

Gyda chefnogaeth y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR), ac ochr yn ochr â gwaith y Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau, bydd unedau mamolaeth yng Nghymru yn cydweithio gydag Astudiaeth Ymchwil yr Alban. Mae'r gwaith yn cynnwys treial i brofi pecyn o ofal a allai helpu i ostwng y risg o farw-enedigaeth pan fydd menyw yn adrodd bod llai o symudiadau gan y ffetws. Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Nod yr astudiaeth ymchwil yn yr Alban yw profi’r ddamcaniaeth bod protocol ar gyfer synhwyro a rheoli llai o symudiadau gan y ffetws yn lleihau cyfraddau marw-enedigaethau. Bydd yr astudiaeth yn profi ymyriad sy’n cyfuno codi ymwybyddiaeth ymhlith cleifion o gyfrif symudiadau gan y ffetws, gyda chynllun rheoli ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol ar gyfer menywod sy’n dangos llai o symudiadau gan y ffetws. Ochr yn ochr â gwaith 1000 o Fywydau a Mwy, mae grŵp o obstetryddion a bydwragedd bellach yn datblygu’r gwaith yng Nghymru gyda chefnogaeth NISCHR.

Rhaglen genedlaethol o welliannau yw 1000 o Fywydau a Mwy sy'n cefnogi sefydliadau ac unigolion i ddarparu'r gofal iechyd mwyaf diogel o'r radd flaenaf i bobl Cymru.

# Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau

# Cylch Gorchwyl

# Mai 2012

Yn y DU diffinnir marw-enedigaeth fel marwolaeth y ffetws ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd. Roedd y gyfradd marw-enedigaethau yng Nghymru yn 2010 yn 5.3 fesul 1000 o enedigaethau – 190 o fabanod.

Sweden sydd â'r gyfradd marw-enedigaethau isaf yn Ewrop sef 3.5 fesul 1000 o enedigaethau. Pe bai Cymru yn lleihau ei chyfradd marw-enedigaethau i'r ffigur hwn, byddai 64 o fabanod yn ychwanegol yn byw pob blwyddyn. Er na ellir efelychu hyn yn uniongyrchol i Gymru oherwydd demograffeg wahanol y boblogaeth (er enghraifft, mae cysylltiad rhwng amddifadedd a chynnydd mewn cyfraddau marw-enedigaethau) mae hwn yn ffigur y gall Cymru anelu ato.

Caiff y gwaith hwn ei arwain gan wasanaethau mamolaeth Cymru a'i hwyluso gan Raglen Gydweithredol Fach 1000 o Fywydau a Mwy ochr yn ochr â'r gwaith parhaus.

**Rhaglen Gydweithredol Fach Trawsnewid Gwasanaethau Mamolaeth**

Cafodd y Rhaglen Gydweithredol Fach Trawsnewid Gwasanaethau Mamolaeth 1000 o Fywydau a Mwy ei lansio ym mis Mawrth 2011 gyda nod gyffredinol o wella'r profiad a'r canlyniadau ar gyfer menywod, babanod a'u teuluoedd mewn gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Nod cychwynnol y gwaith oedd gwella'r broses o adnabod menyw y mae ei chyflwr yn dirywio'n gyflym ac ymateb i hynny (gan gynnwys adnabod sepsis ac ymateb iddo) ac atal thrombosis gwythiennau dwfn. Mae pob uned mamolaeth yng Nghymru yn rhan o'r rhaglen.

Mae Grŵp Llywio Cenedlaethol yn goruchwylio'r gwaith hwn. Caiff timau'r Byrddau Iechyd eu cefnogi wrth gyflwyno'r ymyriadau a nodwyd gan ddefnyddio Methodoleg 1000 o Fywydau a Mwy. Caiff effeithiolrwydd ei sicrhau drwy gyfres o fesurau canlyniadau.

**Bydd y Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau:**

- Yn adolygu'r sylfaen o dystiolaeth sydd ar gael o ran atal marw-enedigaethau.

- Yn datblygu strategaeth gyda'r nod o leihau lefelau marw-enedigaethau.
- Yn nodi ac yn hyrwyddo ymchwil pellach yng Nghymru i wella'r ddealltwriaeth o'r rhesymau dros farw-enedigaethau.
- Gweithio gyda menywod i sicrhau'r cydbwysedd mwyaf rhwng 'normalrwydd' ac 'ymyriad'.
- Hwyluso'r broses o rannu a lledaenu arfer da ledled Cymru.
- Nodi cyfyngiadau ac atebion ar gyfer materion clinigol a gweithredol penodol.
- Rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am faterion lleol a chynnydd o ran gweithredu.
- Gweithio gydag elusennau sydd â phrofiad ac arbenigedd yn y maes hwn, megis SANDS, Ymddiriedolaeth Holly Martin a grwpiau priodol eraill i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r materion hyn.
- Gweithio gyda Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru i sicrhau adnoddau priodol er mwyn gweithredu ymyriadau y nodwyd eu bod yn gost-effeithiol.
- Hwyluso gwaith rhwng gwahanol asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth a all ddylanwadu ar sicrhau lleihad mewn demograffeg risg.
- Gweithio gyda grwpiau tebyg yn y DU a thramor.

Mae dimensiwn cryf o ran anghydraddoldebau iechyd ynghlwm wrth farw-enedigaethau ac mae nifer o'r materion wedi cael eu codi, er enghraifft:

- Diffiniad ac asesiad o risg, sy'n cynnwys risgiau o ran amgylchiadau cymdeithasol a ffordd o fyw, gyda ffocws penodol ar grwpiau y gwyddir sydd â chanlyniadau cymharol waeth.
- Rheoli risg yn well, drwy fwy o fynediad at wasanaethau a phrofiad o wasanaethau, gyda ffocws penodol ar fenywod y gwyddir sydd â chanlyniadau cymharol waeth.
- Nodi ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys cefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd a chymdeithasol ychwanegol.
- Gwelliannau o ran casglu data a rheoli perfformiad.
- Gwelliannau o ran pennu achosion marw-enedigaethau a gwybodaeth sy'n berthnasol i sicrhau beichiogrwydd llwyddiannus yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn benodol i'r Gweithgor Marw-enedigaethau ystyried y materion canlynol:

- Sganio menywod beichiog yn fwy i nodi'n gywir broblemau o ran tyfiant eu babanod cyn eu geni.

- Rheoli gostyngiad o ran symudiadau'r ffetws.

- Rheoli'r broses o gymell geni ar gyfer beichiogrwydd wedi'r cyfnod llawn.

**Cyfrifoldebau'r Aelodau**

Mae aelodau'n gyfrifol am:
- Ddarparu gwybodaeth arbenigol, cyngor ac arbenigedd.

- Cyfathrebu rhagweithiol rhwng y Grŵp a'r corff neu wasanaeth maent yn ei gynrychioli.
- Cynnal tasgau fel y cytunwyd arnynt ac o fewn yr amserlenni gofynnol.

**Cyfarfodydd y Grŵp**

Bydd y Grŵp yn cyfarfod tua 6 gwaith y flwyddyn, yn dibynnu ar yr angen, gyda'r opsiwn o gynnal cyfarfodydd yn amlach a chynnal rhywfaint o waith mewn grwpiau llai i fwrw ymlaen â'r materion.

**Agendâu a Phapurau**

Gall aelodau awgrymu eitemau priodol i'w trafod ar yr agenda. Lle y bo'n bosibl, caiff yr agenda ac unrhyw bapurau i'w trafod eu hanfon o leiaf un wythnos cyn y cyfarfod.

**Cyfathrebu**

Caiff nodiadau eu llunio a'u hanfon at y grŵp; ar ôl i'r nodiadau gael eu cymeradwyo, a lle y bo'n briodol, bydd aelodau'r grŵp yn eu rhannu â'u sefydliadau neu eu cyrff eu hunain. Caiff yr holl bapurau perthnasol, gan gynnwys nodiadau ac agendâu, eu gosod ar wefan mamolaeth 1000 o Fywydau a Mwy:

**www.1000livesplus.wales.nhs.uk/maternity**

**Trefn Lywodraethol**

- Bydd y Grŵp yn rhoi'r newyddion diweddaraf yn rheolaidd i'r Grŵp Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth Cymru Gyfan.
- Cyfathrebu a chysylltu â rhanddeiliaid eraill fel y bo'n briodol.

**Aelodau'r Grŵp**

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Bryan Beattie | Arbenigwr mewn Meddygaeth y Ffetws |
| Catherine Roberts | 1000 o Fywydau a Mwy |
| Cate Langley | Pennaeth Bydwragedd |
| Gordon Vujanic | Histopatholeg |
| Gwyneth Thomas | Llywodraeth Cymru |
| Heather Payne | Llywodraeth Cymru |
| Helen Rogers | RCM |
| Isobel Martin | Cronfa Ymchwil Marw-enedigaethau Holly Martin |
| Isobel Smith | WRP |
| Jackie Foster | Adolygydd Lleyg Arolygiaeth Iechyd Cymru |
| Jan Davies | 1000 o Fywydau a Mwy |
| Janet Scott | Sands |
| Julia Sanders | Bydwraig Ymgynghorol |
| Julie Richards/Vinny Ness | Awdurdod Goruchwylio Lleol |
| Nigel Davies | NSAG Mamolaeth |
| Paul Clyburn | Anaesthetydd |
| Philip Banfield | 1000 o Fywydau a Mwy |
| Polly Ferguson | Llywodraeth Cymru |
| Shantini Paranjothy | Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan |
| Shirley Gittoes | Sands |
| Tom Porter | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Victoria Evans-Park | 1000 o Fywydau a Mwy |